



Speaking up for carers and people with a learning disability

# Gwobrau Deall Anabledd - Rhif 26

## *Dathlu cynhwysiant ym maes anableddau dysgu*

### *Goresgyn gwahaniaethu*

### ***Ewch ati i enwebu rhywun heddiw!***

Mae Gwobrau Deall Anabledd yn dathlu'r rhai sy'n cymryd camau pendant i YMGYSYLLTU ac sy'n YMRWYMO i hyrwyddo AGWEDDAU CADARNHAOL tuag at bobl sydd ag anableddau dysgu.

Dylech ddangos bod y rhai rydych yn eu henwebu'n dangos eu bod yn GYNHWYSOL, yn hyrwyddo AGWEDD GADARNHAOL, yn cynnig y CYMORTH PRIODOL ac yn defnyddio'u DYCHYMYG wrth helpu person ag anabledd dysgu i integreiddio yn y Gymuned.

Cofiwch gynnwys unrhyw DYSTIOLAETH ANECDOTAIDD a allai fod yn berthnasol i'ch enwebiad.

DYDDIAD CAU: Dydd Gwener, 31 Mai 2019

### **Wyddoch chi am:**

- Gyflogwr
- Ysgol/coleg neu athro/athrawes/cynorthwydd dysgu
- Gwirfoddolwr
- Grŵp neu sefydliad lleol
- Plentyn neu grŵp o blant neu bobl ifanc
- Gweithiwr proffesiynol
- Brawd neu chwaer neu ofalwr ifanc (o dan 18 oed)

### **sy'n haeddu cydnabyddiaeth?**

## **Beth am eu henwebu ar gyfer Gwobrau Deall Anabledd – Rhif 26?**



Undis Awards 2019  
flyer.PNG

Y dyddiad cau ar gyfer anfon enwebiadau yw dydd Gwener, 31 Mai 2019.

Gallwch eu hanfon ar-lein: <https://goo.gl/forms/jXqh4ns0IRvBjxwk1>  
neu drwy'r wefan: [www.parentsfed.org](http://www.parentsfed.org).

I gael rhagor o wybodaeth, neu i holi ymhellach, mae croeso i chi fy ffonio ar 029 2056 5917.

Cofion gorau

*Hasina*

Hasina Kaderbhai  
Swyddog Datblygu



**Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro**

☰ Uned 14 Canolfan Gymuned Sbectrwm, Heol Bwlch, Y Tyllgoed, Caerdydd CF5 3EF

☎ 029 2056 5917 [www.parentsfed.org](http://www.parentsfed.org)

[Twitter](#)

[Facebook](#)

## Ardaloedd – Caerdydd, Bro Morgannwg, Casnewydd a Phen-y-bont ar Ogwr

Dyddiad cau: dydd Gwener 31 Mai 2019

### Adran 2: NODIADAU

#### Nodiadau i'ch helpu chi i lenwi'r ffurflen enwebu

1. Rhaid i'r rhai sy'n cael eu henwebu fod yn byw yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg, Casnewydd neu Ben-y-bont ar Ogwr.
2. Ni chewch enwebu neb sydd wedi ennill gwobr yn ystod y 3 blynedd diwethaf, ond cewch ailenwebu'r rhai a gafodd ganmoliaeth uchel.
3. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, cysylltwch â swyddfa'r Ffederasiwn Rhieni. Ffôn: 029 2056 5917 neu e-bost: [Hasina@parentsfed.org](mailto:Hasina@parentsfed.org)
4. Mae'r ffurflen enwebu hon ar gael ar-lein hefyd: <https://goo.gl/forms/jXqh4ns0IRvBjxwk1>
5. Bydd yr enillwyr yn cael gwahoddiad i seremoni wobrwyo ym mis Tachwedd. Plac a/neu dystysgrif fydd y gwobrau.
6. Gallwch anfon y ffurflen ar-lein neu drwy'r post, ac mae angen gwneud hynny erbyn dydd Gwener, 31 Mai 2019. Y cyfeiriad post yw:  
Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro  
Uned 14 Canolfan Gymuned Sbectrwm  
Heol Bwlch, Y Tyllgoed, Caerdydd  
Caerdydd CF5 3EF

Y cyfeiriad e-bost yw: [hasina@parentsfed.org](mailto:hasina@parentsfed.org)

#### Dyddiad cau: dydd Gwener 31 Mai 2019

7. Diogelu data:  
Mae'n bosibl y caiff y manylion personol a gaiff eu cynnwys ar y ffurflen eu trosglwyddo i'r cyfryngau at ddibenion cyhoeddusrwydd. Os nad ydych yn dymuno i ni rannu'r manylion hyn, neu os nad ydych am i sefydliadau'r cyfryngau gysylltu â chi neu'r enwebai, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl.

- Nid wyf yn dymuno i fy manylion gael eu rhannu â'r cyfryngau at ddibenion cyhoeddusrwydd
- Rwy'n hapus i fy manylion gael eu rhannu â'r cyfryngau at ddibenion cyhoeddusrwydd

## Adran 3:

### Dewiswch GATEGORI ar gyfer eich enwebiad

Mae Gwobrau Deall Anabledd yn dathlu'r rhai sy'n cymryd camau pendant i YMGYSYLLTU ac sy'n YMRWYMO i hyrwyddo AGWEDDAU CADARNHAOL tuag at bobl sydd ag anableddau dysgu.

Rwy'n enwebu: (Ticiwch un blwch yn unig)

- Cyflogwr (ewch i Adran 6)
- Ysgol/coleg neu athro/athrawes/cynorthwydd dysgu (ewch i Adran 7)
- Gwirfoddolwr (ewch i Adran 8)
- Grŵp neu sefydliad lleol (ewch i Adran 9)
- Plentyn/grŵp o blant neu bobl ifanc (ewch i Adran 10)
- Gweithiwr proffesiynol (ewch i Adran 11)
- Brawd neu chwaer neu ofalwr ifanc (o dan 18 oed) (ewch i Adran 12)

Bydd y Nodiadau yn Adran 2 yn eich helpu wrth i chi lenwi'r Ffurflen Enwebu.

## Adran 4: PWY YDYCH CHI’N EI ENWEBU?

Rhowch fanylion llawn y cyflogwr/ysgol/unigolyn/grŵp neu sefydliad rydych yn ei (henwebu

Enw llawn yr unigolyn/cyflogwr/ysgol/grŵp/sefydliad\*

.....

Enw llawn y person cyswllt:

Mr / Mrs/ Ms .....Enw cyntaf ..... Cyfenw .....

Cyfeiriad: .....

.....

..... Cod post: .....

Rhif ffôn: ..... Symudol: .....

Sut ydych chi’n adnabod yr enwebai? .....

Os ydych chi’n enwebu’r sefydliad rydych yn gweithio iddo, atodwch enwebiad ategol gan riant/gofalwr neu ddefnyddiwr gwasanaeth.

# Adran 5: EICH MANYLION CHI

Rhowch eich manylion

Eich enw llawn: Mr / Mrs/ Ms .....

Enw cyntaf ..... Cyfenw .....

Cyfeiriad: .....

.....

Tref / Dinas.....

Sir: ..... Cod post: .....

E-bost: .....

Ffôn: ..... Ffôn symudol: .....

Llofnod: ..... Dyddiad: .....

# Adran 6:

## GOBRAU'R CYFLOGWYR

### Swyddi go iawn, tâl go iawn i oedolion a phobl ifanc

- 1 Sut, ac i ba raddau, y caiff y person/pobl ag anableddau dysgu eu CYNNEWYS YN LLAWN yn y gweithle?
- 2 Ai **SWYDD GYFLOGEDIG** yw hi? A yw'r cyflog yn deg, a sut y mae'n cymharu â chyflog gweddill y staff? Sut y mae natur y swydd yn adlewyrchu gallu'r person?
- 3 Rhwch ddisgrifiad byr o'r HYFFORDDIANT a gynigir i staff i godi ymwybyddiaeth o anabledd.
- 4 DISGRIFIWCH faint o GYMORTH a gynigir, a natur y cymorth hwnnw (os yw'n berthnasol). SUT y mae hyfforddiant yn HYRWYDDO ANNIBYNIAETH?
- 5 Pa mor hwylus yw'r gweithle? PA GAMAU sy'n cael eu cymryd i GYNNEWYS y person ag anabledd dysgu mewn GWEITHGAREDDAU Y TU ALLAN I'R GWAITH?

## Adran 7:

# GWOBRAU YSGOLION/COLEGAU NEU ATHRAWON/CYNORTHWYWYR DYSGU

## Rhannu cyfleoedd dysgu

- 1 DISGRIFIWCH sut, ac i ba raddau, y mae'r ysgol/coleg neu'r athro/athrawes/cynorthwydd dysgu yn galluogi'r plentyn/plant/pobl ifanc ag anabledd dysgu i fod yn rhan\* o'r holl weithgareddau yn yr ysgol/coleg.
- 2 Sut y mae'r enwebai wedi helpu'r plentyn i GYMRYD RHAN LAWN ym mywyd cymdeithasol ac academaidd yr ysgol e.e. clybiau brechwast, tripiâu ysgol etc?
- 3 Pa ddulliau dysgu CREADIGOL/ARLOESOL sy'n cael eu defnyddio? Beth sydd wedi bod o'r budd mwyaf i'r plant yn yr ystafell ddosbarth? Rhewch ENGHREIFFTIAU.
- 4 Sut y mae'r ysgol/coleg neu'r athro/athrawes/cynorthwydd dysgu yn CYFATHREBU â rhieni/gofalwyr/gweithwyr proffesiynol?
- 5 DANGOSWCH sut y mae'r enwebai'n gwneud yn siŵr bod disgyblion, staff a llywodraethwyr yn ymwybodol o anableddau dysgu ac yn eu deall.

*\* h.y. yn caniatáu i blant ddysgu gyda'i gilydd, waeth beth yw eu hanabledd dysgu. Mae'n golygu bod yn rhaid i ysgolion a cholegau fod yn fwy creadigol wrth groesawu plant/pobl ifanc.*



## Adran 8:

# GWOBRAU'R GWIRFODDOLWYR

## Pobl sy'n galluogi pobl ag anableddau i integreiddio

- 1 Sut y mae gwaith y gwirfoddolwr yn ei gwneud yn haws i bobl ag anableddau dysgu INTEGRIDDIO yn y gymuned?
- 2 A yw natur y gwaith yn WIRFODDOL h.y. yn DDI-DÂL?
- 3 Sut y mae'r enwebai'n gweithredu AR EI LIWT EI HUN i wella ansawdd bywyd yn sylweddol?
- 4 Sut y mae'r gwirfoddolwr yn HYRWYDDO DEALLTWRIAETH GADARNHAOL o bobl ag anableddau dysgu a/neu eu teuluoedd? (ee drwy roi cymorth, addysg, gwybodaeth, hyrwyddo annibyniaeth neu eirioli ar ran eraill)?

## **Adran 9:**

# **GWOBRAU'R GRWP/SEFYDLIADAU LLEOL**

## **Integreiddio pobl ifanc ac oedolion yn y gymuned**

- 1** Sut, ac i ba raddau, y mae'r person/pobl ag anabledd dysgu yn cael eu CYNWYS yn y grŵp/sefydliad?
- 2** DANGOSWCH sut y mae AGWEDDAU aelodau eraill y grŵp wedi newid.
- 3** A allwch chi DDISGRIFIO sut y mae'r grŵp/sefydliad yn defnyddio'u dychymyg i gynnwys y person/pobl ag anabledd dysgu yn ei weithgareddau?
- 4** Sut y mae'r grŵp/sefydliad yn mynd y TU HWNT i'r disgwyl i hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at bobl ag anableddau dysgu?
- 5** DISGRIFIWCH yr hyfforddiant a gaiff staff/gwirfoddolwyr i'w helpu i ddeall anabledd.

## Adran 10:

# GWOBRAU'R PLANT/GRWPIAU O BLANT NEU BOBL IFANC

### \*Plant a phobl ifanc gyda'i gilydd yn eu cymuned

\*plant a phobl ifanc 0 - 21 oed

\* Gall grwpiau gynnwys: clybiau ar ôl ysgol, clybiau ieuenctid, clybiau gwyliau, cynlluniau chwarae, grwpiau chwaraeon, brownis, y guides, y sgowtiaid, clybiau drama, clybiau campfa, clybiau dawns neu'r hyn sy'n digwydd amser chwarae yn ystod oriau ysgol.

Byddwn yn croesawu enwebiadau gan blentyn neu grwpiau o blant, gweithwyr, gweithwyr chwarae, arweinwyr grŵp neu oedolion perthnasol sy'n ymwneud â gweithgareddau plant.

- 1 DISGRIFIWCH sut, ac i ba raddau, y mae'r plentyn/grŵp o blant/pobl ifanc yn CYNNWYS plentyn/pobl ifanc ag anableddau, yn enwedig anableddau dysgu, yn eu gweithgareddau.
  
- 2 DISGRIFIWCH neu rhowch ENGHREIFFTIAU o'r modd y mae agweddau plant/pobl ifanc y grŵp wedi newid.
  
- 3 Rhowch ENGHREIFFTIAU o'r DULLIAU CREADIGOL a gaiff eu defnyddio i gynnwys plant/pobl ifanc ag anableddau yng ngweithgareddau'r grŵp.

## Adran 11:

### Gweithio'n broffesiynol gyda phobl ag anabledd dysgu

### Unigolyn ymroddedig dy'n dangos ymrwymiad YCHWANEGOL

- 1 Sut y mae gwaith yr unigolyn yn ei gwneud yn haws i'r person/pobl ag anableddau INTEGRIDDIO yn y gymuned?
- 2 Sut y mae'r unigolyn yn mynd ati AR EI LIWT EI HUN i wella ansawdd bywyd yn sylweddol (Y TU HWNT i ddyletswyddau ei swydd)?
- 3 Sut y mae'r unigolyn yn HYRWYDDO dealltwriaeth dda o bobl ag anableddau dysgu a/neu eu teuluoedd (ee drwy roi CYMORTH, ADDYSG a GWYBODAETH iddynt a drwy hyrwyddo ANNIBYNNIAETH neu EIRIOLI ar ran rhywun).
- 4 Sut y mae'r unigolyn yn dangos YMRODDIAD ac YMRWYMIAD i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd?
- 5 Sut y mae'r unigolyn yn YSBRYDOLI eraill i weithredu yn yr un modd?

## Adran 12

### \*GWOBRAU BRODYR A CHWIORYDD NEU OFALWYR IFANC

#### Person ifanc sy'n gwneud gwahaniaeth i fywyd rhywun arall

\*Brawd neu chwaer neu ofalwr ifanc o dan 18 oed

1. DISGRIFIWCH sut, ac i ba raddau, y mae'r brawd neu'r chwaer neu'r gofalwr ifanc yn CYNNWYS neu'n CYNORTHWYO oedolyn neu blentyn/plant ag anableddau?

2. Beth yw natur anabledd y person hwn?

3. A yw'n rhoi'r cymorth yn WIRFODDOL hy yn DDI-DÂL?

4. DISGRIFIWCH a yw'r CYMORTH neu'r GWEITHGAREDD yn digwydd yn y cartref teuluol ynteu mewn lleoliad cymdeithasol.

5. DISGRIFIWCH sut y mae'r oedolyn neu'r person ifanc anabl wedi meithrin perthynas â'r brawd neu'r chwaer neu'r gofalwr ifanc.

6. DISGRIFIWCH sut y mae'r cymorth hwn wedi gwella ansawdd bywyd y person anabl mewn ffyrdd eraill.

# Adran 13: GWYBODAETH

## Gwobrau Deall Anabledd 2019

Y Grŵp Deall Anabledd sy'n trefnu'r gwobrau hyn ac mae'r Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro, Cyngor Bro Morgannwg, a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bro Morgannwg.

Mae'r Panel Dyfarnu'n cynnwys pobl sydd ag anableddau dysgu, rhieni, cynrychiolwyr y cynghorau a'r gymuned fusnes leol.

*Challenging attitudes towards  
people with learning disability*



### Y Grŵp Deall Anabledd

Ffederasiwn Rhieni  
Uned 14 Canolfan Gymuned Sbectrwm  
Heol Bwlch Y Tyllgoed Caerdydd CF5 3EF  
Ffôn: 029 2056 5917

E-bost: [hasina@parentsfed.org](mailto:hasina@parentsfed.org) Gwefan: [www.parentsfed.org](http://www.parentsfed.org)

Supported by



Speaking up for carers and people with a learning disability

Thanks to

**consensus** ●●●  
For their on-going support

